

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

YMCHWILIAD I GANGIAU GRŴMIO YN CYHOEDDI LLEOLIADAU DIWEDDARAF AR GYFER YMCHWILIAD

Heddiw, mae'r Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Grŵmio wedi cyhoeddi dechrau ymchwiliad yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwiliad ardal leol i Birmingham. Bydd y ddau ymchwiliad yn archwilio cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gangiau grŵmio ac ymateb sefydliadau sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Bydd yr ymchwiliadau yn rhan o raglen waith genedlaethol ehangach yr Ymchwiliad ac yn eistedd ochr yn ochr â'r ymchwiliadau lleol sydd eisoes ar y gweill yn Oldham, Bradford a Keighley, a Llundain.

Bydd pob ymchwiliad yn helpu'r Ymchwiliad i sefydlu pam fod sefydliadau a sefydliadau wedi methu â diogelu dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth, ac yn bwydo'n uniongyrchol i'w ganfyddiadau a'i argymhellion cenedlaethol.

Wrth i'w waith barhau, bydd yr Ymchwiliad yn cyhoeddi lleoliadau pellach i'w hymchwilio yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad heddiw, mae'r Ymchwiliad hefyd wedi lansio ffyrdd newydd i ddioddefwyr a goroeswyr helpu i lunio ei waith trwy gam nesaf ei Broiect Gwrandio Cenedlaethol.

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Grŵmio yn ymchwilio i gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gangiau grŵmio, a methiant awdurdodau cenedlaethol a lleol i'w hamddiffyn dros ddegawdau. Mae'r Ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan y Farwnes Anne Longfield CBE, gydag aelodau'r panel Zoë Billingham CBE ac Eleanor Kelly CBE.

Mae ymchwiliadau ardal yr Ymchwiliad yn archwilio'r hyn a ddigwyddodd mewn ardal benodol, pam na chafodd plant eu hadnabod a'u diogelu, sut ymatebodd sefydliadau, a oedd dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu clywed a'u cefnogi, a pha wersi y mae'n rhaid eu dysgu i atal cam-drin a niwed yn y dyfodol.

Fe fyddan nhw'n ymchwilio i fethiannau systemig, sefydliadol ac unigol yn yr ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys sut y cawsant eu trin, eu cefnogi a'u canfod gan awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill. Bydd dioddefwyr a goroeswyr yn ganolog i'r ymchwiliadau hyn.

Bydd yr Ymchwiliad hefyd yn archwilio unrhyw ffactorau diwylliannol, ethnig, crefyddol neu ffactorau eraill a allai fod wedi cyfrannu at batrymau cam-drin neu ddylanwadu ar sut ymatebodd sefydliadau, gan ddilyn y dystiolaeth ble bynnag y mae'n arwain.

Gall ymchwiliadau ardal gynnwys gwrandawriadau cyhoeddus, gan ganiatáu i'r Ymchwiliad archwilio tystiolaeth yn gyhoeddus a dal sefydliadau ac unigolion i gyfrif.

Cymru

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Grŵmio yn ymchwiliad cenedlaethol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr gyfan. Bydd yr Ymchwiliad yng Nghymru yn gyfle pwysig i archwilio

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

ymatebion diogelu ac amlasiantaethol, gweithrediad trefniadau datganoledig, a gweithio trawsffiniol rhwng sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

Mae Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried camfanteisio'n rhywiol a cham-drin plant yn seiliedig ar grwpiau yng Nghymru. Mae'r Ymchwiliad yn datblygu union gwmpas ei waith yng Nghymru a bydd yn rhoi diweddariad pellach ar ei natur a'i raddfa yn ddiweddarach.

Birmingham

Bydd yr ymchwiliad ardal leol yn canolbwyntio i ddechrau ar Birmingham ond gall ymestyn i ardaloedd cyfagos, cysylltiedig neu loeren, lle mae'r dystiolaeth yn ei gefnogi. Bydd yr union gwmpas daearyddol a thystiolaeth yn cael ei ddatblygu wrth i dystiolaeth gael ei chasglu.

Mae'r penderfyniad i ymchwilio i Birmingham yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau a gwybodaeth, gan gynnwys profiad dioddefwyr a goroeswyr, arwyddion o achosion, niwed a risg, a phryder y cyhoedd.

Mae Birmingham wedi'i ddewis oherwydd bod yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn darparu sylfaen gref ar gyfer archwilio sut mae sefydliadau'n nodi, rhannu gwybodaeth ac yn ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws ardal fetropolitan fawr.

Mae'r Ymchwiliad o'r farn bod hwn yn cynnig cyfle pwysig i archwilio atebolrwydd, diogelu a gweithio mewn partneriaeth ar draws Birmingham.

Project Gwrando Cenedlaethol

Mae'r Ymchwiliad yn ehangu cyfleoedd i ddioddefwyr a goroeswyr i'w lunio.

Mae'r Project Gwrando Cenedlaethol yn galluogi dioddefwyr a goroeswyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau a grwpiau goroeswyr i rannu eu profiadau, eu safbwyntiau a'u barn gyda'r Ymchwiliad. O ddechrau mis Hydref, bydd pobl nawr yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd newydd, trwy gyflwyniadau ysgrifenedig, recordiadau llais a recordiadau fideo, a sgysiau un-i-un a gynhelir gan hwyluswyr hyfforddedig a'u cefnogi gan wasanaethau cymorth emosiynol arbenigol.

Bydd yr wybodaeth a rennir gyda'r Ymchwiliad gan ddioddefwyr a goroeswyr yn helpu'r Ymchwiliad i ddeall effaith camdriniaeth, nodi materion sydd angen eu harchwilio ymhellach, llunio llinellau ymchwiliad a llywio argymhellion yn y dyfodol. Nid yw dioddefwyr a goroeswyr yn cyfrannu dystiolaeth i'r Ymchwiliad yn unig. Mae eu profiadau yn helpu i lunio ei ymchwiliadau, ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

Does dim angen i neb aros am ymchwiliad yn eu hardal er mwyn i'w llais gael ei glywed. Mae'r Ymchwiliad yn cwmpasu Cymru a Lloegr i gyd ac yn croesawu gwybodaeth gan unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan gangiau grŵmio a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Dywedodd y Farwnes Anne Longfield CBE, Cadeirydd yr Ymchwiliad,:

“Bydd yr ymchwiliad i Gymru yn ein helpu i ddeall beth ddigwyddodd, pam na chafodd plant eu diogelu, sut ymatebodd sefydliadau, a beth sydd angen ei newid er mwyn atal cam-drin yn y dyfodol.

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

"Byddwn yn dilyn y dystiolaeth ble bynnag y bydd yn arwain. Byddwn yn archwilio methiannau yng Nghymru lle y digwyddon nhw, yn nodi pwy oedd yn gyfrifol, ac yn sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yn cael eu dal yn atebol am y penderfyniadau a wnaethant, neu wedi methu â chymryd, i amddiffyn plant.

"Mae dioddefwyr a goroeswyr yng Nghymru wedi aros yn rhy hir am atebion. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â sefydlu'r gwir, darparu atebolrwydd, a nodi'n glir beth sy'n rhaid ei newid fel bod plant yn cael eu hamddiffyn yn well yn y dyfodol."

Meddai Zoë Billingham CBE:

"Bydd yr ymchwiliad ardal leol yn Birmingham yn caniatáu inni archwilio'r materion hyn yn fanwl a deall sut roedd systemau diogelu yn gweithredu yn ymarferol.

"Byddwn yn edrych yn ofalus ar yr hyn a wyddai sefydliadau, sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, sut roedd asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, a pham y collwyd cyfleoedd i amddiffyn plant.

"Bydd yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu trwy'r ymchwiliadau hyn yn ein helpu i adeiladu darlun cenedlaethol cliriach a llywio canfyddiadau ac argymhellion ehangach yr Ymchwiliad."

Dywedodd Eleanor Kelly CBE:

"Mae dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr wedi aros yn rhy hir am atebion.

"Mae popeth a wnawn yn cael ei gryfhau trwy wrando ar y rhai sydd â phrofiad byw. Mae eu profiadau yn ein helpu i ddeall beth ddigwyddodd, herio rhagdybiaethau, nodi materion sydd angen eu harchwilio ymhellach a llywio'r argymhellion a wnawn.

"Trwy'r Project Gwrando Cenedlaethol, rydym yn creu mwy o gyfleoedd i bobl ymgysylltu â'r Ymchwiliad yn y ffordd sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw, boed hynny trwy gyfrifon ysgrifenedig, recordiadau llais, recordiadau fideo neu sgysiau un-i-un yn y dyfodol.

"Rydym ni'n gwybod bod siarad am yr hyn a ddigwyddodd yn gallu bod yn anhygoel o anodd. Dyna pam rydym wedi ymrwmo i greu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad sy'n hygyrch, yn gefnogol ac yn hysbys am drawma, gyda chefnogaeth emosiynol arbenigol ar gael i'r rhai sy'n dewis cymryd rhan mewn sgysiau un-i-un. "Does dim angen i neb aros am ymchwiliad yn eu hardal er mwyn i'w llais gael ei glywed."

"Sefydlwyd yr Ymchwiliad hwn i roi atebion i ddioddefwyr a goroeswyr, ble bynnag maen nhw'n byw. Bydd eu profiadau yn parhau i ffurfio ein hymchwiliadau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion o'r dechrau i'r diwedd."

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

- Ar gyfer ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau: PressEnquiries@grooming-gangs.independent-inquiry.uk
- Ar gyfer ymholiadau cyffredinol: contactus@grooming-gangs.independent-inquiry.uk

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

- Mae rhagor o wybodaeth am yr Ymchwiliad, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl, Meini Prawf Dewis Ymchwiliad Ardal Leol a'r Project Gwrando Cenedlaethol, [ar gael ar wefan yr Ymchwiliad](#).

Ynglŷn â'r Ymchwiliad

- Mae'r Ymchwiliad Annibynnol Statudol i Gangiau Grŵmio yn ymchwilio i gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gangiau grŵmio ledled Cymru a Lloegr.
- Mae ganddo bwerau cyfreithiol llawn i orfodi tystion i roi tystiolaeth a gofyn i sefydliadau ac unigolion ddarparu dogfennau a gwybodaeth.
- Mae'r Ymchwiliad yn ymchwiliad statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Mae'n gwbl annibynnol ar y Llywodraeth a'r holl sefydliadau y mae'n ymchwilio iddo.
- Fe'i sefydlwyd yn dilyn Argymhelliad 2 Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Louise Casey ar Gamfanteisio'n Rhywiol a Cham-drin Plant yn Seiliedig ar Grŵp (Mehefin 2025).
- Canfu'r Archwiliad Cenedlaethol fod methiannau systemig a pharllys sefydliadol wedi galluogi gangiau grŵmio i weithredu ers blynnyddoedd lawer.
- Penododd yr Ysgrifennydd Cartref y Farwnes Anne Longfield CBE yn Gadeirydd, gyda'r panelwyr Zoë Billingham CBE ac Eleanor Kelly CBE, ym mis Rhagfyr 2025.
- Dechreuodd yr Ymchwiliad ei waith yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2026 a disgwylir iddo ddod i ben erbyn mis Mawrth 2029.
- Mae'r Ymchwiliad yn parhau i gasglu tystiolaeth yn genedlaethol trwy ymchwiliadau, y Project Gwrando Cenedlaethol a Gwrandawiadau Atebolrwydd Cenedlaethol yn y dyfodol.